Arfordir ar Daith

Rebecca Evans: Swyddog Dehongli, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Sut y bydd ein harfordir yn edrych heddiw? Yfory? Y mis nesaf? Yn ystod storm? Wedi storm?

Prosiect cymorth torfol ar arfordir Sir Benfro yw **Arfordir ar Daith**. Nod y prosiect yw cofnodi newidiadau i'n harfordir a thynnu sylw at y pwnc llosg Newid Hinsawdd. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor o gadw pethau'n syml, rhad a hygyrch. Mae'r arfordir yn ddynamig. Ar adegau bydd yn newid yn araf, ac ar adegau bydd yn newid yn gyflymach. Natur sy'n gyfrifol am rai o'r newidiadau hyn, achosir eraill gan ryngweithiad dyn â'r dirwedd. Mae'n bwysig i ni gofnodi'r newidiadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwnc newid hinsawdd a llywio ein gwaith yn y dyfodol.

Mae'r dechnoleg sydd ar gael i gofnodi newid yn symud ymlaen yn gyflym. Ond a oes angen defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, ar gost fawr yn aml, o ystyried ei bod hi weithiau'n mynd yn hen mewn byr amser? Yn anffodus, mae cynnwys elfen o arloesedd digidol technoleg-uchel mewn prosiect yn cael ei ystyried yn ddymunol yn aml gan gyllidwyr – y canlyniad weithiau yw mai'r cyfryngau sy'n gyrru'r prosiect ar draul y negeseuon a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu.

Bydd y cyflwyniad hwn yn edrych ar:

- Nodau'r prosiect
- Sut y cafodd ei sefydlu
- Cysylltiadau â phrosiectau eraill, ym Mhrydain a thrwy'r byd
- Cymwysiadau eraill y dechnoleg hon
- Pwyntiau dysgu ymarferol
- Pwyntiau i feddwl amdanynt

Arfordir ar Daith

Helpwch ni i gofnodi sut mae'n harfordiroedd yn newid

Gosodwch eich dyfais yn erbyn y ffrâm
Tynnwch lun. E-bostiwch y llun atom
ffotos@arfordirpenfro.org.uk

Changing Coasts

Help us record how our coasts are changing

Place your device against the frame
Take a photo and email it to
photos@pembrokeshirecoast.org.uk